# Y PAPUR GWYRDD

Rhifyn dathlu blwyddyn o ymgyrchu!



**Ein dewis:**

# Troedio'n ysgafn ar y Ddaear —

## *neu sathru'n ddyfnach i argyfwng yr Olew, y Bwyd, a'r Cynhesu Byd-eang*

**Gwreiddiau Gwyrdd mudiad cenedlaethol Cymru**

---

**Awelon gobeithiol melinau môr Conwy**

---

**Newyddion o bedwar ban am Ymgyrch y Blaned**


Y PAPUR GWYRDD
Rhif 7
Awst / Medi
2008

PRIS: £1
ISSN 1755-3504


Cylchgrawn Cymraeg yr ymgyrch i warchod y byd

**Y PAPUR GWYRDD:** *Llais Cymraeg annibynnol i ymgyrch parchu'r Ddaear*

Golygydd: Hywel Davies, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX Ffôn: 01792 798162
Ebost: ypapurgwyrdd1@btinternet.com Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com
Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan gwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.
Argreffir Y Papur Gwyrdd gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR — yn llwyr, bellach, ar bapur wedi'i ailgylchu




GYDA'R rhifyn hwn - y 7fed - o gylchgrawn **Y Papur Gwyrdd**, fe ddathlwn flwyddyn o gyhoeddi ers cael ein lansio ar Faes Prifwyl Sir y Fflint .

Fe wnaethom hynny yn y gred bod angen cyfrwng annibynnol Cymraeg i gysylltu Cymru â'r mudiad cyffroes, amrywiol, byd-eang sy'n ymgyrchu dros leihau'r niwed mae dynoliaeth yn achosi i'r Ddaear.

Roeddem wedi gweld bod mudiadau amgylcheddol bellach ymysg y bywiocaf yn ein hardaloedd mwya' Cymraeg dan arweiniad newydd-ddyfodiaid Saesneg-eu-hiaith brwdfrydig a chreadigol.



Fe gredwn ei bod yn hanfodol i ddyfodol y Gymraeg ei bod hithau'n dod yn gyfrwng i'r bywiogrwydd newydd hwn sy'n ymwneud â phwnc mor bwysig.

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, roeddem yn falch, e.e., bod Cynhadledd Gymraeg ar bwnc Newid Hinsawdd wedi'i chynnal yn Llandrindod; i weld mudiadau Trefi Trawsnewid Llandeilo a Bro Gwaun yn gweithio i ddenu Cymry Cymraeg atyn nhw; ac i groesawu ymroddiad Urdd Gwyrdd ymhlith ieuenctid.

Cawsom ein boddhau, hefyd, gyda'r croeso i'r **Papur Gwyrdd.**

Mae hyn wedi'n hysbrydoli i barhau gyda'n gwaith o helpu i dynnu 'nghyd y Byd Cymraeg a'r Byd Gwyrdd fel yr uniad mwya' naturiol a mwya' gobeithiol yn ein gwlad.

Diolch, felly, am eich cefnogaeth i'r cylchgrawn.

**Hywel a'r Dr Charlotte Davies**
**Cyhoeddwyr**

# CYNNWYS

3 Gwreiddiau Gwyrdd y mudiad cenedlaethol Cymreig
4 GOLYGYDDOL: Pa bleidiau fydd yn ein harwain i 'droedio'n ysgafn'?
5 GORDON JAMES: Melinau Môr Conwy — awelon gobeithiol ein dyfodol
6 Exxon Valdez — osgoi cosb y llygredd wedi 20 mlynedd
7 GARETH CLUBB: mentro i'r Blaned Hapus
8 Llanw a Thrai y mudiad i warchod y Byd
9 BEN GREGORY: ymweld â sbwriel erchyll La Chureca
10 DAEAR-IADUR y Papur Gwyrdd.
11 Her i eglwysi Cymru droi at achub — y Ddaear!

## Pa mor wyrdd ydyn ni?

**FEL cyhoeddwyr Y Papur Gwyrdd, digon teg i bobl holi faint o ymdrech ydyn ni ein hunain wedi ei wneud i leihau ein hôl troed planedol dros y flwyddyn aeth heibio.**

Er mwyn cynnal Asesiad Teuluol, troisom at lyfr defnyddiol **Climate Change Begins at Home** (Macmillan, 2006) gan y gwyddonydd Dave Reay. Llyfr difyr a doniol sy'n ganllaw hwylus.

**CEIR:** Tri char yn dal gennym, gan gynnwys Dai, y Daihatsu 4x4. Ond, mae'r Honda Civic 1.4cc yn *hybrid* sydd a llai o $CO_2$ gan ei fod yn rhannol drydan, a'r Renault Clio ond yn 1.3cc. Ac mae Dai fel Wil yng ngharchar Rhuthun, 'a'i wedd yn ddigon trist', am nad yw 'n cael gwneud braidd dim ond tynnu'r bocs ceffylau o dro i dro.

**TRAFNIDIAETH:** Gweddnewidiad! Fy nheithiau car dyddiol i rhwng Abertawe a Chaerdydd wedi dod i ben ers tro, ac mae'r arbediad mewn allyriadau $CO_2$ a defnydd petrol, wedi bod yn anferth. Ar ben hynny, mae Charlotte yn teithio ar y bws i'r brifysgol. Gwnawn ddefnydd helaeth o'r gwasanaeth bysiau (haws mewn tref, wrth gwrs) a threnau.

**GWYLIAU:** Wrth fynd i Dde Carolina ym Mehefin, mynd am y tro cyntaf ar y tren o Abertawe i Fryste gan hedfan oddiyno dros yr Iwerydd. A dyna'n hunig daith awyr am eleni.

**BEICIAU:** Eu defnyddio'n llawen bob penwythnos wrth hamddena, ond perygl yr heolydd cyhoeddus yn ein cadw rhag unrhyw ddefnydd ymarferol.

**BWYD:** Derbyn blwch llysiau organig a lleol i'r tŷ yn wythnosol ac yn prynu bwydydd eraill organig, mor lleol a phosib, a Masnach Deg. Bwyta llawer llai o gig — llysieuol yn aml. Ond, yr archfarchnadoedd, ysywaeth, yn dal eu gafael ynom.



Ein cynhaeaf winwns

**YR ARDD:** Fel amaturiaid y **'Good Life'** (chi'n cofio?), wedi creu llain llysiau bychan ynghanol ein lawnt gefn a newydd gynaeafu llwyth o winwns/nionod a garlleg. Rhywfaint o fefus hefyd, cyrens coch a mwyar glas yn aeddfedu, a thomatos yn araf, araf. Cymdogion da yn ein croesawu i ddefnyddio afalau sy'n cwympo i'n gardd ar gyfer tartenni neu *grymbl*. Yn dal ar y rhestr hir ar gyfer rhandir ond yn ystyried mwy o dyfu yn yr ardd.

**Y TŶ:** Bron pob golau yn ynni isel, ond ein hoffer trydan braidd yn hen ac angen eu hadnewyddu gyda rhai mwy ynni effeithiol. Dal yn dipyn o her i sicrhau bod y trydan yn cael ei ddiffodd yn llwyr bob tro, yn lle ei adael ar *'standby.'* Y tŷ wedi'n hinsiwleddio'n dda eisoes. Angen edrych am drydan adnewyddol.

**GWASTRAFF:** Gyda chymorth Cyngor Dinas Abertawe, wedi cwtogi ar y bagiau 'gwastraff' aiff i'n tyllau cywilyddus yn y Ddaear. Y Cyngor bellach yn derbyn gwastraff bwydydd wedi'u coginio (ar wahan i gigoedd), pethau plastig, bocsys sudd, olew coginio, batrïau, yn ogystal â'r papur, gwydr, caniau, ynghyd â gwastraff gwyrdd yr ardd nad aiff i'n compostiwr gweithgar, cynhyrchiol.

**ASESIAD:** Yn dangos ymroddiad - ond gellir gwneud mwy!

**HYWEL DAVIES**

## Barack Obama — gobaith newydd i'r Ddaear?



"Mae pobl sy'n gwrthod credu mewn cynhesu byd-eang yn gallu gweiddi mor groch ag y mynnent , ond dyw e ddim yn newid y ffaith bod mwyafrif llethol tystiolaeth wyddonol a hyd yn oed Swyddfa Wladol y weinyddiaeth *[Americanaidd]* ei hun wedi profi hyn dro ar ol tro. Rhaid i ni weithredu nawr gyda gweddill y byd i ffrwyno allyriadau fel y cawn adael planed mwy iach a diogel i'n plant." Y Seneddwr Barack Obama.

# Syniadau 'gwyrdd' - mor naturiol i fudiad cenedlaethol Cymru

WRTH i'r byd wynebu problemau difrifol cynyddol o ganlyniad i lygru'r amgylchedd, lleihad adnoddau, a globaleiddio, mae meddylwyr y mudiad 'gwyrdd' byd-eang yn cynnig atebion sy'n cynnwys syniadau a fu'n gyffredin ym mudiad cenedlaethol Cymru ers ei gychwyn - yn arbennig y pwyslais ar gymunedau bach.

Yn rhifyn diweddaraf *Anthropology Today*, mae Thomas Love, athro anthropoleg ac astudiaethau amgylcheddol yn Oregon UDA, yn ystyried rhai o'r canlyniadau tebygol wrth i olew rhad ddod i ben ar ôl cyrraedd y brig rywbryd rhwng 2008 a 2010.

Mae'n dadlau y bydd angen i ni 'ail-ddysgu beth yw ystyr byw mewn cymuned leol', a sut i ddelio a chyfyngiadau ar dwf economaidd gan gynnwys 'mwy o ddibyniaeth ar gynnyrch a systemau rhanbarthol a lleol'.

Bydd rhaid i bobl ddysgu sgiliau newydd, meddai, gan fod y rhan fwyaf ohonom yn 'llwyr anwybodus' ynglŷn â sut i gynhyrchu bwyd a, hyd yn oed, o ble y daw.

Yn yr un modd, mae'r ffermwr ac athronydd dylanwadol Wendell Berry o Kentucky wedi dadlau o blaid pwysigrwydd gwarchod – ac ail-greu – economïau a chymunedau lleol fel sail i wrthsefyll globaleiddio a phŵer y farchnad fyd-eang.

Bu syniadau tebyg yn cael eu hawgrymu a'u datblygu gan genedlaetholwyr Cymru ers dyddiau cynnar y mudiad, ond cawsant eu gwasgu rhwng syniadau confensiynol cyfalafiaeth rydd a sosialaeth wladwriaethol a'u diosg fel rhai 'iwtopaidd.'

Daeth y Dr D.J.Davies â syniadau o gydweithrediad economaidd a chymdeithasol i'r Blaid Genedlaethol ifanc gan bwysleisio'r angen i greu systemau hunangynhaliol a lleihau milltiroedd teithio Masnach Rydd:

"Byddai cynyddu hunangynhaliaeth yn lleihau nifer y gwŷr canol anghynhyrchiol sydd rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr, a byddai hefyd yn lleihau'r galw am drafnidiaeth ... byddai llawer o'r fasnach allforio wastraffus mewn nwyddau trymion yn diflannu."

**Gan**
**HYWEL DAVIES a'r**
**DR CHARLOTTE DAVIES**

Asiodd hyn yn naturiol gyda neges Saunders Lewis mai 'cymuned o gymunedau' oedd Cymru fel cenedl ac na ddylai dderbyn canoli gwladwriaethol.

Beirniadwyd globaleiddio - dan enw Masnach Rydd - yn gryf, hefyd, gan yr Athro J.E.Daniel:

'O bob peth na ddylai fod yn rhydd, ond y dylid ei wylio'n ofalus gam a cham, Masnach yw honno. Peth i'w drefnu a'i ddisgyblu ydyw, onide fe dry cymdeithas wyneb i waered ... Nid yw o bwys o gwbl *[gan gyfalafwyr Masnach Rydd]* y golyga hyn oll chwalu cartrefi a thorri cysylltiad canrifoedd ... Ni edrychant hwy ar ddyn fel aelod o deulu, neu fel perchen traddodiad a gwareiddiad arbennig, fel un a chanddo wreiddiau yn naear ei fro a'i wlad; na, iddynt hwy robot economaidd yw dyn na ddylai falio i ble yr a ond iddo gael gwaith yno.'


Ynghanol diweithdra'r Tridegau, roedd Saunders Lewis yn siarad mewn ffordd fyddai'n gyfarwydd iawn i rai elfennau ym mudiad gwyrdd ein hoes ni:

'Rhaid i Gymru droi yn ôl at y tir a hynny'n ebrwydd. A rhaid troi mewn difrif mawr ... Os na frysiwn i wacau ein pentrefi diwydiannol segur a'n cymoedd gorboblog yn Neheudir Cymru, a throi ein poblogaeth i lanhau a pharatoi tiroedd aredig a ffrwythlon ymhob rhan o'n tiriogaeth, yna fe gerdd newyn drwy'r dyffrynnoedd ...'

Ac wrth i Gwynfor Evans arwain y Blaid yn ail hanner yr 20fed Ganrif, datblygodd y syniadau:

"Mae creu economi gytbwys ... yn dibynnu ar leihau ein dibyniaeth ar eraill. Ni ddylai'r ffaith fod llawer o bethau na all Cymru gynhyrchu ei hunain ei hatal rhag cynhyrchu cymaint ag y gall ... Mae gwlad sy'n mewnforio bwyd y gellid ei dyfu ar ei thir ei hun yn gwneud niwed i ddynolryw."

Daeth Gwynfor yn agos iawn at bobl fel y Dr Leopold Kohr – yr economegydd Awstriaidd ymunodd â'r Blaid – ac E.F.Schumacher, sef arloeswyr syniadau *Small is Beautiful* sy'n dal i gynyddu yn eu dylanwad.



**GWYNFOR: 'Mae gwlad sy'n mewnforio bwyd y gellid ei thyfu ar ei thir ei hun yn gwneud niwed i ddynolryw.' Llun: Marian Delyth**



**D.J.DAVIES: 'Byddai cynyddu hunangynhaliaeth yn lleihau nifer y gwŷr canol — ac yn lleihau'r galw am drafnidiaeth.'**

Roedd Gwynfor yn aml yn canmol cylchgrawn **Resurgence** a sefydlwyd gan Satish Kumar yn y 1960au ac sy'n dal i arwain gyda thrafodaethau gwerthfawr sy'n galw arnom i ail-ystyried ein ffordd o fyw a'n triniaeth o'r Ddaear.

Ac o ran y bygythiad i'r Ddaear gan Gynhesu Byd-eang, ni roddodd unrhyw blaid wleidyddol rybudd mwy clir na hwnnw gan y diweddar Athro Phil Williams ar ran Plaid Cymru yn ein Cynulliad Cenedlaethol (gweler, **Y Papur Gwyrdd**, Hyd Tach 2007).

Ond, a ochrodd y Blaid yn ormodol gyda'r economeg gyfalafol gonfensiynol wedi sefydlu'r Undeb Ewropeaidd ac wrth i'r IMF a Banc y Byd ddechrau gwthio Globaleiddio a Phrynwriaeth?

Digwyddodd hyn er bod Plaid Cymru a'r Blaid Werdd wedi gallu cydweithio mor dda yn etholiad 1992, gyda Cynog Dafis yn cael ei ethol fel AS 'gwyrdd' cyntaf Cymru. Bellach, diflannodd y cydweithio hwnnw.

Ond, yn oes Newid Hinsawdd a difrod Globaleiddio, gydag unedau llai yn cael eu hystyried fel rhan o achubiaeth dynolryw, ai dyma'r cyfle i Bleidwyr fynd ati i ail-gymhwyso'u gwreiddiau cymunedol ar gyfer amgylchiadau economaidd tra gwahanol? Wedi'r cyfan, gwreiddiau ydynt sy'n eu hasio â llif y mudiad gwyrdd byd-eang. ◻

**LLUN CLAWR: NASA**

GOLYGYDDOL | HYWEL DAVIES

# Troedio'n ysgafnach ar y Ddaear — yr her i'n pleidiau gwleidyddol



Fe gymerai estrys go styfnig i beidio â derbyn bellach bod y byd a'i bobl, a'i holl fywyd a systemau naturiol, yn wynebu argyfwng fel nas gwelwyd erioed o'r blaen.

Yn wir, mae rhywun yn teimlo ein bod fel dynolryw yn cael y Rhybudd Olaf. A'r neges yw bod rhaid i ni newid ein ffordd o drin y Ddaear, a dysgu troedio'n ysgafn arni, os ydym i adael dim heblaw trafferthion enbyd i'n plant a phlant ein plant.

Gydag Olew, Bwyd, y dirwasgiad Masnachol a Chynhesu Byd-eang rydym yn cael ein gorfodi i ailystyried patrymau sydd wedi bod yn datblygu ers cychwyn y Chwyldro Diwydiannol ond sydd wedi dwyshau'n aruthrol ers diwedd yr Ail Ryfel Byd.

Yn syml, rydyn ni yn y Gorllewin yn byw y tu hwnt i allu'r Ddaear i'n cynnal. A gwaethygu ar ruthr mae'r sefyllfa gan inni ddarbwyllo biliynau'r Dwyrain mai peth da fyddai iddyn nhw ddilyn ein hesiampl.

Rhaid i'r economi ryngwladol dyfu, honnir gydag angerdd, er mwyn i'r tlodion gael dianc o'u caethiwed. Ond elw'r corfforaethau yw'r gwir reswm. Y broblem yw nad yw'r blaned yn tyfu iot i gynnal y ffolineb.

Mae'r argyfwng Olew yn symbol o'r ffordd rydym yn parhau i ysbeilio'r Ddaear o'i hadnoddau fel gwallgofiaid.

Wrth gwrs bod ystrywiau masnachol a gwleidyddol yn cyfrannu at y prinder presennol, ond, yn waelodol, y neges yw ein bod wedi defnyddio gwerth miliynau o flynyddoedd o greu olew gan brosesau naturiol mewn cwta 100 mlynedd.

Bu mudiad Trefi Trawsnewid yn ein hannog i ddechrau ystyried goblygiadau byd heb olew ers cael ei ffurfio rhyw bum mlynedd yn ôl. Bellach mae eu rhybuddion yn taro pob un ohonom yn fwy effeithiol nag unrhyw araith na thaflen.

Ym Mehefin, buom ar ein hymweliad blynyddol â theulu Charlotte yn Ne Carolina, talaith sydd ymysg y lleia' rhyddfrydol a thebygol i dalu sylw i faterion amgylcheddol yn yr Unol Daleithiau. Ond mae'r cynydd ym mhris *'gasoline'* wedi syfrdanu pawb yno - er yn dal ond yn chwarter yr hyn y mae gyda ni yng Nghymru, fel ces i gyfle i egluro iddyn nhw.

Clywais aelodau staff un o'r palasau prynwriaeth mawreddog yno'n trafod yn frwd ymysg ei gilydd sut maen nhw'n ceisio torri nôl ar ddefnyddio'u ceir – gan son am rannu a holi am geir *'hybrid.'*

Mae llawer o bobl gyffredin yn barod i ystyried sut mae modd byw'n fwy cynnil, fel y buom hyd yn gymharol ddiweddar. Y tristwch yw bod y corfforaethau rhyngwladol yn parhau i sgwrio gwaelod ein moroedd, a rhwygo tiroedd gwyllt olaf y blaned, am weddillion yr olew, y nwy, y glo a bellach, fel yng Nghymru, y methan, er mwyn cynnal yr hen system barus a'u helw.

O ran y prinder bwyd, un achos yw bod y Trydydd Byd eisoes yn diodde' o effeithiau Newid Hinsawdd ond hefyd am fod cymaint o'r amaethu traddodiadol wedi cael ei chwalu o ganlyniad i bwysau masnach ryngwladol a pholisiau Banc y Byd dros y blynyddoedd diwethaf.

Olew sydd wrth wraidd y codiad ym mhris bwyd – gan fod mecaneiddio ffermydd a throi at ddulliau modern y corfforaethau *agro-business* wedi bod yn seiliedig ar ddefnyddio olew at gymaint o ddibenion amaethu – a hefyd am fod cymaint o gynhyrchu bwyd wedi gorfod ildio i dyfu biodanwydd a wnaed mewn modd mor ddi-ystyriol.

Mae'r 'dirwasgiad' economaidd byd eang yn ganlyniad i dwf globaleiddio sydd, fel gyda ffermio, wedi dinistrio patrymau hunan gynhaliol cymaint o wledydd gan ein cysylltu â ffawd yr hap chwarae ar y marchnadoedd rhyngwladol.

Ac mae Newid Hinsawdd yn gwmwl bygythiol dros y cyfan, wedi'i achosi gan dwf parhaol allyru Carbon Deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill i'r atmosffer.

Yn wyneb yr argyfyngau hyn, edrychwn am arweiniad cryf gan ein pleidiau gwleidyddol i gyd yn eu cynhadleddau blynyddol hydrefol.

Fel pobl gyffredin, sy'n derbyn – ie, ninnau fel cyhoeddwyr **Y Papur Gwyrdd** yn eu plith – nad oeddem yn talu'r sylw daladwy i rybuddion ynghylch Cynhesu Byd-eang a'r pwysau ar adnoddau'r Ddaear yn y gorffennol, rydym yn disgwyl i'n gwleidyddion osod lles yr amgylchedd ar flaen eu blaenoriaethau.

Gadewch iddynt ddangos sut y cawn droedio'n fwy ysgafn ar y Ddaear – gan herio grym dinistriol y *'vested interests'* mae Al Gore yn ein rhybuddio amdanynt.

<u>Mae hynny'n hanfodol os ydym am sicrhau 'Planed Hapus' - teitl ysbrydoledig menter Gareth Clubb a Sandy Booth (tud 7) - ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.</u> ☐

## Diolch am eich cefnogaeth …

**WRTH ddathlu Penblwydd 1af Y Papur Gwyrdd, diolch am eich sylwadau cefnogol. Dyma rai:**

Annwyl Luddites — Papur Gwyrdd Ardderchog! O.D., Ceredigion

Dw i'n falch iawn bod rhywun yn gwneud yr ymdrech i wneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Pob lwc — J.T., Powys

Llongyfarchiadau ar bapur bywiog a darllenadwy … A oes modd ystyried troi'r papur yn bapur dyddiol? J. ac R.T., Abertawe


Gwych gweld papur sy'n annog diddordeb yn yr amgylchedd ymysg siaradwyr Cymraeg. O.H., Shir Gâr

Rydw i'n hoff iawn, iawn o ddarllen yr erthyglau … a gobeithio bydd eich cylchgrawn yn llwyddo. K.W., Bro Morgannwg

Llongyfarchiadau ar y cylchgrawn ardderchog! Bendigedig! G.R., Sir Ddinbych

Diolch o galon am eich gwaith rhagorol. Mwynhau'r papur yn fawr. Ll.R., Shir Gâr


Dwi'n falch iawn bod papur o'r fath yn y Gymraeg. S.J., Gwynedd



Llongyfarchiadau. Pob lwc! D.W., Penfro

# Melinau môr Conwy — chwa o awyr iach gobeithiol am ddyfodol adnewyddol ...

## *OND BLE MAE GWYRDDNI DAVID CAMERON WRTH I DORIAID ABERCONWY WRTHWYNEBU?*



**Gan GORDON JAMES**
**Cyfarwyddwr**
**Cyfeillion y Ddaear Cymru**

BYDDAI fferm wynt 200 twrbein Gwynt-y-Môr yn cynhyrchu 10% o drydan Cymru ac yn osgoi allyrru tua 2 filiwn tunnell y flwyddyn o garbon deuocsid.

Wedi'i lleoli 10 milltir oddi ar arfordir Llandudno, awgrymir y byddai'r melinau môr yn cynhyrchu trydan am hyd at 80% o'r amser ac y byddai'n cymryd llai na blwyddyn i ad-dalu'r ynni a ddefnyddiwyd wrth ei chreu a'i chodi.

Dyma'n union y math o brosiect sydd angen arnom os ydym i leihau bygythiad newid hinsawdd yn y byr amser sydd ar gael. Byddai hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i gwrdd â her targedi ynni adnewyddol a osodwyd ar gyfer Cymru a'r DG.

Yn ddisgwyliadwy, cafwyd rhywfaint o wrthwynebiad lleol, yn arbennig gan berchnogion gwestai ac eraill sy' 'nghlwm wrth y diwydiant twristaidd.

Ond dyw eu honiad y byddai effaith weledol y fferm wynt yn niweidio'u diwydiant yn sylweddol ddim yn cael ei gadarnhau gan y dystiolaeth.

Mae pennaeth twristiaeth Cyngor Bwrdeisdref Great Yarmouth, er enghraifft, wedi datgan bod eu fferm wynt môr hwy "yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gorwel" a bod y ganolfan wybodaeth dwristaidd "yn gweld llif parhaol o ymwelwyr sydd am ddysgu mwy am y fferm wynt ac am ynni gwynt."

Yn ogystal, rydym wedi darganfod cefnogaeth gref i Wynt-y-Môr ar strydoedd Llandudno. Gyda'r Glymblaid Ynni Adnewyddol, mae Cyfeillion y Ddaear Cymru wedi bod yn cynnal stondin yn y dref ar Sadyrnau sydd wedi denu cannoedd o bobl sy'n frwd i gefnogi'r prosiect.



**Heb ynni adnewyddol melinau gwynt, bydd Storm Berffaith newid hinsawdd yn ein taro, medd Dr James Hanson**
***Llun: Cyfeillion y Ddaear***

*Serch hynny, pleidleisiodd pwyllgor cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i wrthwynebu Gwynt-y-Môr ac mae'r Cyngor wedi galw am ymchwiliad cyhoeddus.*

Bu'r gwrthwynebiad yn arbennig o gryf ymhlith y Blaid Geidwadol yn yr ardal. Er holl rethreg werdd ardderchog David Cameron, anodd gwybod o ble y bydd y Ceidwadwyr yng Nghymru'n sicrhau toriadau mewn allyriadau carbon.

Er eu gwrthwynebiad cryf i ynni gwynt, maen nhw'n cefnogi cynlluniau i dyllu am olew a nwy ym Mae Ceredigion gyda'i fywyd gwyllt llewyrchus, codi pwerdy LNG ym Mhenfro na fydd yn defnyddio'i wastraff gwres anferth yn y purfeydd lleol a glanfeydd LNG, ac adeiladu ffyrdd newydd.

Yn ein pabell ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd, bydd Cyfeillion y Ddaear yn gwahodd pobl i arwyddo llythyr at weinidog ynni'r DG - erys hawl penderfynu ar brosiectau cynhyrchu ynni mawr (50MW a mwy) yn San Steffan yn hytrach nag yng Nghaerdydd - gan ei annog i roi sêl ei fendith i Wynt-y-Môr mor fuan ag y bo modd. Credwn fod tri rheswm cryf pam y dylid gwneud hyn:

- **Mae'r** datblygwr, *npower Renewable*, wedi ymateb i bryderon ynghylch yr effaith weledol trwy adleoli'r twrbeini er mwyn gostwng pa mor weladwy ydynt o'r traeth o 16%
- **Mae'r** dystiolaeth wyddonol am newid hinsawdd yn dod yn gynyddol frawychus. Yn ddiweddar, rhybuddiodd James Hanson o NASA, sef un o brif wyddonwyr newid hinsawdd y byd, os na chymerwn fesurau radical ar unwaith y gallwn wynebu 'storm berffaith' o newid hinsawdd na fydd modd ei throi 'nôl.
- **Gosodwyd** targedi heriol gan y Gymuned Ewropeaidd i greu 20% o'i holl ynni (trydan, gwres a thrafnidiaeth) o ffynonellau adnewyddol erbyn 2020. Fel ei rhan yn hyn, disgwylir i'r DG orfod cynyddu cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddol saith gwaith, sef o 5% i ryw 35%.

Bydd ein papur cefndirol, **'Ynni gwynt: 20 Myth yn Mynd Gyda'r Gwynt"** ar gael yno hefyd. Mae hyn yn datgelu'r gwendidau mewn llawer o'r dadleuon a gynigir gan wrthwynebwyr ynni gwynt, gan gynnwys y rhai sy'n gwrthwynebu Gwynt-y-Môr. ☐

►**Cyfeillion y Ddaear: www.foe.co.uk/cymru**


**Dewch draw am sgwrs ...**
**PABELL CYFEILLION Y DDAEAR**
**Helpwch greu Cymru a Byd adnewyddol**
**Ymunwch â'r ymgyrch o blaid melinau Gwynt-y-Môr**
**AR FAES Y BRIFWYL, CAERDYDD**

## Dyma'r 'sioc olew' olaf — ac mae'n hen bryd i ni ffocysu

'Rhaid i ni beidio â ffocysu ar brosiectau enfawr wedi'u cynllunio i weithio yng nghyd-destun twf economaidd ac ynni rhad, a ffocysu yn lle hynny, fel Mentrau Trawsnewid ledled y byd, ar wytnwch dyfeisgar, ar greu rhwydweithiau bwyd lleol, lleihau defnydd ceir, creu systemau ynni sy'n ddatganoledig ac yn eiddo i'r gymuned … *[Rhaid i ni]* edrych o'r newydd mewn ffyrdd llawn dychymyg at ail-ddefnyddio gwastraff yn lleol yn lle bod yn rhan o brosesau ailgylchu mawreddog. *[Rhaid i ni]* flaenoriaethu tir trefol ar gyfer gerddi masnachol yn lle swyddfeydd, a chreu tai o ddeunydd lleol … Mae'n bryd ffocysu, bobl ... Dyma'r 'sioc olew olaf', fel mae David Strahan yn cyfeirio ato. Efallai dyma fydd y tro olaf i economïau gyrraedd i'r copaon sydd gan ein heconomi ni.'

**ROB HOPKINS, sylfaenydd mudiad Trefi Trawsnewid.**

# Exxon yn osgoi cosb o $5biliwn am lygredd y Valdez — ond yn dechrau ail ystyried



**Yr Exxon Valdez wedi'r llygru enbyd yn Alaska**

WEDI llygredd enbyd yr *Exxon Valdez* 20 mlynedd yn ôl, dyfarnodd llys yn Alaska y dylai corfforaeth olew Exxon / Esso dalu $5biliwn o iawndal cosb.

Ond yn niwedd Mehefin profodd grym cyfalaf yn drech na chyfiawnder naturiol wrth i Lys Goruchaf America dorri'r gosb i $½ biliwn.

Yn y cyfamser, mae Exxon wedi osgoi talu dim o'r $5biliwn i 32,000 o bysgotwyr masnachol, Indiaid brodorol, perchnogion eiddo ac eraill ddioddefodd yn Alaska yn 1989 gan yr achos gwaethaf o lygredd olew yn nyfroedd yr Unol Daleithiau.

"Mae e mor rhad - fel trwydded i ollwng olew!" meddai'r newyddiadurwr Greg Palas yn y **Chicago Tribune**, "Heddiw, ugain mlynedd ar ôl i olew olchi dros draethau Chugach, wrth i chi gicio cerrig trosodd mae'n gwynto fel hen orsaf betrol."

Gollyngwyd tua 11 miliwn galwyn o olew craidd o'r Exxon Valdez gan ymestyn dros 1,200 milltir o arfordir, cau pysgodfeydd, difrodi cymunedau, lladd miloedd o famaliaid môr, a channoedd o filoedd o adar.

"Mae'r stori gyhoeddus am y Capten Meddw wedi gweithio'n dda i'r diwydiant olew," meddai Palas, sydd hefyd yn newyddiadurwr i **Newsnight** y BBC, "Mae'n cam gyflwyno stori trychineb amgylcheddol waethaf America fel un o wendid dynol, fel damwain hollol unigol.

"Ond fe sicrhaodd radar diffygiol, offer coll, timau glanhau nad oedd mewn bodolaeth, profion nas cynhaliwyd – yr anwybyddu o'r gyfraith dan bwysau elw – fod y gollyngiad yn anochel, nid yn ddamwain."

Yn 2006, lleihawyd yr iawndal gwreiddiol i $2½ biliwn gan Lys Apeliadau 9fed Cylchdaith yr UD. Doedd hynny ddim yn ddigon i Exxon a bellach maen nhw, i bob pwrpas, wedi cyrraedd eu nod o osgoi'r gosb wreiddiol gan y rheithgor yn Anchorage – wedi i bump o brif farnwyr yr UD gytuno a'r cwmni, a thri anghytuno.

### CYFADDEF BAI AM GUDDIO FFEITHIAU

Does dim ots wedi bod gydag Exxon am yr amgylchedd na chymunedau.

Yn 2006, cafodd y cwmni ei ddisgrifio gan y **Washington Post** fel "y gorfforaeth proffil-uchel mwya' gwrthwynebus i syniadau am gynhesu byd-eang." Hyd yn ddiweddar bu Exxon yn sianelu miliynau o ddoleri i grwpiau fu'n gwadu a gwyrdroi ffeithiau gwyddonol.

Bu Exxon yn gweithio'n agos iawn gyda'r Tŷ Gwyn i helpu'r Arlywydd George Bush i wadu Newid Hinsawdd, a defnyddiwyd gwariant anhygoel ledled y ddaear i atal gweithredu ac i newid polisïau yn ymwneud ag amddiffyn yr amgylchedd.

Ond bu rhywfaint o dro ar fyd oherwydd beirniadaeth gynyddol.

Ym mis Mehefin, yng nghyfarfod blynyddol y cwmni yn Dallas, arweiniodd teulu Rockefeller wrthryfel gan gyfranddalwyr i geisio newid agwedd negyddol ExxonMobil ar y pwnc.

Methu wnaethan nhw, ond cafwydd cryn gefnogaeth i'w dadleuon parthed Newid Hinsawdd. Enillodd eu cynnig yn galw ar Exxon i gefnogi ynni adnewyddol 27% o'r pleidleisiau, a chynnig i'r cwmni gyfyngu ar ei allyriadau nwyon tŷ gwydr 30%.

O ganlyniad i'r pwysau, mae penaethiaid Exxon wedi derbyn bellach bod eu cefnogaeth i gwmnïau lobio gwrth-amgylcheddol wedi cuddio rhybuddion gwyddonwyr ynglyn a difrifoldeb newid hinsawdd ac, o ganlyniad, wedi arafu gweithredu ar y pwnc.

Yn ôl y **Guardian,** mae'r cwmni wedi datgan eu bod yn bwriadu atal cyfraniadau ariannol i sawl grŵp sydd wedi bod yn tanseilio ymdrechion i ddod o hyd i ynni glan.

Ond mae Greg Palas yn amau didwylledd y cwmni yn wyneb trychineb yr **Exxon Valdez**:

"Wrth iddynt geisio dechrau tyllu yng Ngwarchodfa Genedlaethol Bywyd Gwyllt yr Arctig, a'r Seneddwr John McCain yn galw am dyllu oddiar draethau'r *Lower 48* [talaith yr UD], mae Olew Mawr yn dweud wrthym ... dydy e ddim yn gallu digwydd eto.

"Maen nhw'n addo!" ☐



**WRTH I'R DDAEAR ALW AM SYLW A GOFAL, AETH GARETH CLUBB A SANDY BOOTH O BENARTH ATI I GREU MENTER I ROI CYNGOR I BOBL SY'N GOFYN … "BETH ALLEN NI EI WNEUD?"**

# Ymunwch â phobl y Blaned Hapus!

Gan GARETH CLUBB

Daeth y syniad am Blaned Hapus tua dwy flynedd yn ôl. Roedd ymwybyddiaeth y cyfryngau o'r newid yn yr hinsawdd megis dechrau erbyn hynny, a'r straeon oedd yn dod o lefydd fel pegynau'r byd a'r fforestydd glaw yn digalonni pobl.

Roedd hi'n dod yn fwyfwy amlwg bod newidiadau economaidd ac amgylcheddol mawr ar y gweill, ac y buasai rhaid i bobl ddod yn gyfarwydd â ffyrdd newydd o weithio, teithio a byw.

Roedden ni wedi newid ein bywydau ein hunain er mwyn lleihau ein baich ar yr amgylchedd, a hefyd wedi annog ein teulu a'n ffrindiau i fyw yn fwy cynaliadwy.

Er bod toreth o wybodaeth ar gael am allyriadau carbon deuocsid ac ati, roedden ni wedi sylwi bod llawer iawn o bobl wedi'u drysu gan yr hyn mae sefydliadau gwahanol yn ei ddweud.


Ar ôl sgwrsio'n hir gyda ffrindiau a chymdogion, roedden ni'n sicr bod angen gwasanaeth fel yr hyn y mae Planed Hapus yn ei gyflawni.

Yn enwedig, gan fod pobl y dyddiau yma yn cwyno eu bod nhw'n rhy brysur, roedden ni'n teimlo bod galw am wasanaeth a all helpu pobl i benderfynu pa opsiynau fuasai orau i fyw bywydau mwy cynaliadwy.

*A oedd pobl yn gwario arian ar nwyddau nad oedd eu gwir angen arnynt? A oedd ffyrdd hawdd a rhad (neu rad ac am ddim!) a fyddai'n helpu pobl i leihau eu hôl troed carbon?*

Sefydlon ni wasanaeth a fyddai'n defnyddio ein harbenigedd mewn cynaliadwyedd i gynnal arolwg ar ba mor gynaliadwy y mae teuluoedd yn byw, ac i gynnig opsiynau i wella eu perfformiad amgylcheddol.

Mae'r teulu yn llenwi holiadur ac wedyn mae Planed Hapus yn ymweld â nhw yn eu cartref (gyda'r fantais o wneud y broses yn bersonol a chyfeillgar). Rydyn ni'n chwilio am ffyrdd y gall ein cwsmeriaid eu defnyddio i wneud y newidiadau y maen nhw eisiau, yn rhwydd, yn sbort, a heb fod yn rhy ddrud!



**Gareth a Sandy'n mwynhau ar lethrau uchel mynyddoedd y Dolomites (ac, oes, mae modd teithio i'r ardal ar y tren).**

Y cam nesaf yw llunio adroddiad sydd yn dangos eu hôl troed carbon ac esbonio'r holl newidiadau y gallent eu gwneud.

Gwnaethon archwiliadau ar gyfer cwmni teledu yn ddiweddar – proses hwylus iawn ond hefyd yn gyfnod dwys o waith: rydyn ni'n dau yn gweithio'n llawn amser pan nad ydym yn gweithio fel Planed Hapus.

Roedd hi'n ddiddorol iawn i gymryd rhan yn y broses o ddehongli canlyniadau ein harchwiliadau, a'r goblygiadau i'r rhaglen. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weld ffrwyth ein llafur yn yr hydref ar S4C.

Er nad oes sut beth â theulu 'arferol', maen nhw i gyd wedi arbed arian trwy'r newidiadau a argymhellwyd gennym, ac maent hefyd wedi sôn am yr hwyl a gafwyd wrth fynd trwy'r broses o ddod yn fwy cynaliadwy.

Drwy fragu (ac yfed) cwrw neu win cartref, coginio gwledd o'u bocs organig newydd, neu dreulio oriau wrth eu peiriant biodanwydd (stôf llosgi pren!), mae ein cwsmeriaid wedi darganfod bod cyfrannu at blaned hapusach yn gallu ychwanegu'n sylweddol at eu hapusrwydd nhw. ◻

**► Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 02920 700779, neu ewch at: gwybodaeth@planedhapus.co.uk**

## Richard Price — proffwyd Cymreig y Cenhedloedd Unedig ym 1776

**GANED y Parch Richard Price yn Nhynton, Llangeinor, Morgannwg, ym 1723.**

**Roedd yn fathemategwr athrylithgar ac yn athronydd moesol a gwleidyddol dylanwadol a gefnogodd annibyniaeth America a'r Chwildroad Ffrengig.**

**Yn ei bamffled 'Observations on the Nature of Civil Liberty' ym 1776, cafodd weledigaeth o'r hyn ddylai Cenhedloedd Unedig fod sy'n dal yn berthasol heddiw:**

**'Parhaed pob gwlad, o ran ei materion mewnol, yn annibynnol ar y gweddill; ond ffurfier undeb cyffredinol trwy benodi senedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl wahanol wledydd.**

**'Rhodder i'r senedd hon y gallu i reoli materion cyffredin y gwledydd unedig, ac i farnu a dyddio rhyngddynt ymhob anghydweledïad.**

**'Rhodder dan reolaeth y senedd hon hefyd holl luoedd arfog y gwledydd, er cynnal ei phenderfyniadau.**

**'Ar y telerau hyn buasai pob gwlad yn ddiogel rhag ymyrryd o unrhyw allu tramor a'i materion mewnol hi ei hun, a buasai ganddi felly Ryddid.**

**'Ar yr un pryd buasai'n ddiogel rhag trais ac ymosod gan unrhyw wlad gyfagos.'**

Cyfieithiad allan o 'Tystoliaeth y Tadau', Pamffledi Heddychwyr Cymru, gol. Tom Parry

# Yr argyfwng bwyd — canlyniad i bolisiau'r Gorllewin

**CANLYNIAD i bolisïau llywodraethau'r Gorllewin, cyrff rhyngwladol megis Banc y Byd a'r IMF, a chorfforaethau amaeth diwydiannol yw'r argyfwng bwyd sydd wedi arwain at brotestiadau gan dlodion mewn gwledydd ledled y byd a phrisoedd uwch i ninnau i gyd.**

Dyma gynigir gan Elizabeth Palmberg yng nghylchgrawn Americanaidd **Sojourners.** Dyma grynhoad o rai o'i dadleuon:

**Ffermio dwys tanwydd ffosil.** Bu'n glir ers tro, wrth i gronfeydd hawdd-eu-cyrraedd o olew a nwy ein planed leihau, y byddai eu prisoedd yn codi. Ond ers sawl degawd, hefyd, bu'r UD a gwledydd cyfoethog eraill yn gwthio i greu ffermydd mawr, wedi'u mecaneiddio'n drwm, sy'n allforio i farchnadoedd pell ... Mae ffermio diwydiannol yn llyncu cyflenwadau anferth o danwydd ffosil ... Felly, mae pris bwyd wedi'i gysylltu â phris olew craidd sy'n codi'n gyflym - dros 80 y cant ers y llynedd.

**Cynhyrchu biodanwydd** *[e.e. ethanol]*. Amcangyfrifir bod tŵf cynhyrchu ethanol yr UD wedi achosi o leiaf hanner y cynnydd yn yr alwad am rawn ar y farchnad ryngwladol dros y tair blynedd diwethaf; mae tyfu India-corn *[ar gyfer ethanol]* yn disodli tyfu ŷd ar lawer o ffermydd yr UD - lle mae cymorthdaliadau hael fel yn Ewrop.

**Bwyta cig ar gynnydd yn yr UD, Tsieina ac India.** Mae hi'n cymryd wyth pwys o rawn i greu un pwys o gig. Tsieina ac India sy'n cael y bai wrth i fwy o'u dinasyddion godi o dlodi a dechrau bwyta mwy o gig. Ond mae bwyta cig yn yr UD wedi codi hefyd - ar gyfartaledd i 222 pwys y flwyddyn i bob person, sef 78 pwys mwy nag ym 1950.

**Dibyniad gwledydd tlawd ar fewnforio bwydydd hanfodol a natur anwadal y farchnad fyd-eang.** Ym 1960, roedd gwledydd datblygu'r byd yn cynhyrchu gwerth $7biliwn yn fwy o'u ffermydd nag a dalwyd ganddynt am nwyddau a fewnforiwyd ... Ond ers sawl degawd, bu gwledydd cyfoethog yn gwthio'n galed i atal gwledydd tlotach rhag defnyddio trethi, cwotai, a mesurau eraill i amddiffyn eu ffermydd rhag mewnforion o ffermydd diwydiannol.

**Dinistrio polisïau amaeth gwledydd tlawd.** Mae Banc y Byd a sefydliadau rhyngwladol eraill wedi bod yn gwasgu ar lywodraethau gwledydd tlawd i ddod â benthyciadau llog-isel, cymorth technegol, a chymorthdaliadau, i ffermwyr bychain i ben. Yr honiad oedd y byddai marchnadoedd byd-eang yn ateb problemau pawb. Ond nid i dlodion y byd.

**Elw busnesau amaeth.** Mae corfforaethau amaeth diwydiannol yn elwa'n anhygoel o ganlyniad i'r argyfwng bwyd. Maent yn 'ail-ysgrifennu' deddfwriaeth masnach ryngwladol ar draul pobl dlawd a'r amgylchedd.

**Hapfasnachu.** Wrth i swigen morgeisi tai ollwng mor ddramatig, neidiodd rheolwyr buddsoddi Wall Street ar yr argyfwng bwyd fel cyfle gwych i wneud arian. Y canlyniad oedd chwyddo prisoedd bwyd yn uwch eto.

Dywed Elizabeth Palmberg fod sychder yn Awstralia, a llifogydd mewn rhannau o Affrica, hefyd wedi cyfrannu at yr argyfwng bwyd. Ond mae hi'n ychwanegu y bydd y Newid Hinsawdd a achosir gan ein ffordd o fyw yn y Gorllewin yn effeithio mwy eto ar gyflenwadau bwyd yn y dyfodol. ◻

►Sojourners. Faith, Politics and Culture. Gorffennaf 2008 www.sojo.net

## ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR

### Crynodeb 2 fis

**BEIRNIADWYD** arweinwyr pwerus y G8 am siomi'r byd gyda'u hymateb gwan i'r argyfyngau presennol sy'n wynebu'r Ddaear a'i phobl. Meddai Greenpeace: Roedd Uwch Gynhadledd yr G8 yn wastraff amser. Gan gwrdd yn Toyako, Siapan, doedd gan yr arweinwyr ddim newydd i'w gynnig ar bwnc bwyd, rhoesant yr ateb anghywir i'r cynnydd mewn prisiau olew, ac oedi eto wnaethan nhw ar bwnc newid hinsawdd.

**MAE** bwriad corfforaeth olew enfawr Shell i dyllu am nwy methan mewn un o ardaloedd bywyd gwyllt mwya' pwysig British Columbia, y *Sacred Headwaters*, wedi codi nyth cacwn. Ceir tair o afonydd eog enwocaf y dalaith yn yr ardal sy'n gynefin i eirth 'grizzly', caribou a bleiddiaid, ac yn gartref i sawl cenedl Indiaidd frodorol. Fis diwethaf, cafodd rheolwr cynllun Shell embaras yn ystod noson wobrwyo amgylcheddol bwysig wrth i un o'r enillwyr ddatgan i'w wyneb ar y teledu – i gefnogaeth frwd – y byddai'n rhoi ei gwobr ariannol i'r ymgyrch i wrthwynebu'r tyllu.

**LLWYDDODD** aelodau Greenpeace i atal trenau glo rhag cyrraedd pwerdy glo Drax yn Swydd Efrog am ddeuddydd. Meddianodd criw arall ohonynt safle glo brig newydd yn Swydd Derby lle mae ardal wledig i gael ei difrodi'n llwyr gan beiriannau symud pridd. Ataliwyd gwaith am bump awr ym mhwerdy glo mwya brwnt Awstralia, eto gan Greenpeace. Arbedwyd allyru 10,000 tunnell o $CO_2$.

**MAE** Gweinidog Amgylchedd Cymru, Jane Davidson, wedi galw ar gynghorau lleol i ddefnyddio gwastraff bwyd cartrefi a busnesau er mwyn cynhyrchu trydan adnewyddol. "Dyma adnodd gwerthfawr na ddylem ei wastraffu," meddai. "Rhaid dysgu sut y gallwn gael y gwerth gorau oddiwrtho gan achosi'r niwed lleiaf i'r blaned." Anelir at gasglu 800,000 tunnell o wastraff bwyd y flwyddyn gan greu 1% o anghenion trydan Cymru.

**BU** pobl ledled y byd yn cefnogi dau o brotestwyr gwrth-hela morfilod sydd wedi cael eu dal heb achos llys yn Siapan. Roedd y ddau wedi datgelu twyll ar raddfa eang ynglŷn â gwerthu cig morfilod gan gynllun a noddwyd gan Lywodraeth Siapan. Honiad Siapan oedd mai am resymau 'gwyddonol' yn unig y buon nhw'n parhau i hela morfilod. Yn ogystal â phrotest y tu allan i Lysgenhadaeth Siapan yn Llundain, bu gwrthdystiadau mewn 30 o wledydd gan gynnwys Brazil, Indonesia, Sweden ac Awstralia. Danfonwyd tua 180,000 o lythyrau at Brif Weinidog a Gweinidog Tramor Siapan yn galw am ryddhau y dynion.

**AWGRYMA** ymchwil gan wyddonwyr o'r Almaen y gall tymheredd y Ddaear aros mwy neu lai yr un am ryw ddegawd, wrth i gylchoedd hinsawdd naturiol fynd trwy gyfnod oerach. Yn ôl erthygl yng nghylchgrawn *Nature*, mae'r gwyddonwyr yn awgrymu y bydd yr oeri yn dal y cynhesu yn ôl. Ond maen nhw'n disgwyl y bydd tymheredd y Ddaear yn codi'n gyflym eto erbyn 2020. Croesawodd gwyddonwyr eraill yr ymchwil, gan ddweud y gall olygu cyfle i wledydd baratoi'n well ar gyfer y dyfodol.

**LANSIODD** Urdd Gobaith Cymru ymgyrch amgylcheddol, *Urdd Gwyrdd*. Y bwriad yw ymateb i bwnc newid hinsawdd a chodi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau'r Urdd. "Nod y cynllun yw addysgu plant a phobl ifanc fod newidiadau bychain yn ein bywydau o ddydd i ddydd yn gwneud llawer o wahaniaeth yn y pen draw a bydd yr Urdd yn pwysleisio hyn mewn cyfres o weithdai yn ysgolion Cymru dros y tair blynedd nesaf," meddai Efa Gruffudd Jones, pennaeth y mudiad.

**CYHOEDDODD** Rowan Williams, Archesgob Caergaint, ei fod yn bwriadu torri nôl ar hedfan. Ar wahan i un siwrne awyren eleni, mae'n bwriadu teithio cymaint â phosibl ar drenau wrth ymweld â chyfandir Ewrop. Dechreuodd yrru modur *hybrid* yn ddiweddar.

MAE iâ môr yr Arctig yn toddi'n gyflymach na'r llynedd, er y gaeaf oer. Yn ôl ymchwil gan Ganolfan Ddata Genedlaethol Eira a Rhew yr UD, roedd iâ yn gorchuddio mwy o ardal yn nechrau 2008 nag yn 2007. Ond bellach ciliodd i lefelau Mehefin y llynedd a welodd haf a dorrodd recordiau o doddi. Dywedir bod llawer o'r iâ yn denau iawn, a'i bod yn bosib y bydd moroedd yr Arctig heb iâ yn ystod yr hafau ymhen 5-10 mlynedd.

BEN GREGORY YN YMWELD Â LA CHURECA YN NICARAGUA ...

# Rhodd ein prynu a'n taflu — y tip sydd ymhlith '20 arswyd mwya'r byd'

Dim ots lle 'rydych chi yn y byd, mae'n dal yno, ond allan o'r golwg:

- Yn Calcutta, **Belgachhia** yw ei enw.
- Ym Manila yn y Ffilipinos, mae cannoedd ohonynt, yr un mwya enwog ydy **Patayas**, lle bu farw 200 o weithwyr chwe mlynedd yn ôl.
- Ym Managua yn Nicaragua, **La Chureca** ydy'r enw.

Nid cymeriadau o chwedlau yw'r rhain, ond tomenni sbwriel, lle mae pobl yn gweithio a byw un cam o uffern.

Mae lluniau o bobl, a phlant yn arbennig, yn gweithio ar y tomenni wedi dod yn eicon o dlodi yn y Trydydd Byd.

Mae'r bobl sy'n gweithio ar y tomenni yn enghraifft - eithafol mae'n wir - o sut mae llawer o bobl yn gorfod bodoli heb ddim oll wrth gefn.

Mae stori La Chureca yn dangos ochr arall ail-gylchu ac ail-ddefnyddio. Yn y Trydydd Byd, mae mwy a mwy o wledydd yn derbyn gwastraff pobl eraill. Mae'n cael effaith fawr ar y boblogaeth.

Heddiw mae Tsieina'n derbyn hanner gwastraff-e (electroneg) y byd.

Ym mis Mai adroddodd y **Guardian** am y sefyllfa yng Ngorllewin Affrig gan ddyfynnu Mike Anane, cyfarfwyddwr Cynghrair Gohebwyr Amgylcheddol Ghana: *'Ghana is increasingly becoming the dumping ground for (electronic) waste from Europe*.'

Yn y Ffilipinos mae 150,000 o bobl yn chwilota ac ail-gylchu ar 7,000 tunnell o wastraff bob dydd.

Ym Managua yn Nicaragua, La Chureca yw enw'r domen. Enillodd y safle 42 hectar - yr un mwyaf yn America Ladin - wobr anffodus yn 2007. Fe'i henwebwyd fel un o "20 Arswyd y Byd Cyfoes" gan y cylchgrawn Sbaeneg *Interviú*.

Mae 2,000 o bobl yn gweithio ar La Chureca. Cawsom y 'fraint' o ymweld â'r lle y llynedd. Mae'r llwch a'r drewdod, yn arbennig mewn gwres o 35$^{o}$C, yn erchyll. Mae'r lori ludw yn rymblo trwy'r anialwch, ac wedyn yn colli ei llwyth mewn cwmwl o bryfed.



Lluniau Christian Petersen (chwith a gwaelod) yn dangos enbydrwydd bywyd ar dipiau sbwriel mawr y byd — allorau i Grefydd Prynwriaeth



**ADRODDIAD gan BEN GREGORY**

**Ysgrifennydd Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru**

*Yn sydyn, allan o'r llwch, mae pobl yn ymddangos, pawb yn rhedeg yn gwyllt i gael y gorau o wastraff pobl eraill. I unrhywun sy'n gyfarwydd â gwaith Mel Gibson, yr unig eiriau ddaw i'r meddwl ydy Mad Max.*

Mae'r gweithwyr yn ceisio darganfod unrhyw beth maen nhw'n gallu ei werthu i'r 'dynion canol' sy'n casglu wrth fynedfa'r domen.

## Plant y tipiau yn diodde' o Arian Byw, DDT a Phlwm

Alwminiwm, haearn, copr, efydd, papur a gwydr - aiff y cyfan i gyfrannu at £12 miliwn o ddeunydd ailgylchu a allforiwyd o Nicaragua yn 2007.

Dim ond hanner y stori yw hyn. Mae 157 teulu - 700 o bobl - yn byw yng nghanol y domen, mewn amodau sy'n amhosib i'w dychmygu, mewn cabanau cardfwrdd neu sinc.

O le cânt eu dŵr? A'u bwyd? Mae rhai yn cadw gwartheg sy'n pori ar y domen, ac wedyn yn cael eu bwyta.

Prin ydy'r bobl sy'n byw dros 40 mlwydd oed. Dangosodd astudiaeth y llynedd, gan brifysgolion ym Managua a Lund yn Sweden, fod mwy na 30 y cant o'r plant sy'n byw a gweithio yn La Chureca yn dioddef o wenwyn plwm, arian byw a DDT.

Roedd mis Mawrth eleni yn un ysgytwol i La Chureca. Ar ddydd Gŵyl Dewi, aeth y gweithwyr ar streic i atal y loriau lludw rhag dod i'r domen. Cwyn gweithwyr La Chureca oedd bod y dynion lludw yn cymryd y sbwriel gorau, gan danseilio eu bywoliaeth.

Yn y diwedd, penderfynodd y Maer i dalu mwy i'r dynion lludw, ond roedd yr argyfwng wedi rhoi sbardun arall i bawb sydd eisiau gweld La Chureca yn cau.

Un ohonynt ydy Cirilo Otero, a ymwelodd â Chymru sawl blwyddyn yn ôl, fel gwestai Ymgyrch Nicaragua Cymru.

"Nid yr ateb i'r broblem yw taflu sbwriel gwell i'r domen," meddai Cirilo. "Yr ateb ydy symud y bobl, eu hyfforddi mewn rhyw grefft, a'u helpu nhw i brofi bywyd iachach a mwy cynhyrchiol. Byddai eu tynnu o La Chureca yn achub llawer sy'n marw bob dydd o fwyta bwyd wedi'i lygru." ◻

**►Mae Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru yn cefnogi prosiect gyda phlant tomen La Chureca. Mae siaradwyr ar gael i drafod *La Chureca* a phroblemau tlodion Nicaragua. Ffoniwch Ben Gregory ar 01286 882134, neu ebostiwch benica@gn.apc.org.**



# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd



**Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i warchod y byd?**

## Gweithgarwch Haf ym Moelyci

MAE Canolfan Amgylcheddol Moelyci ger Bangor ymysg mentrau 'Gwyrdd' mwyaf gobeithiol Cymru – yn gymunedol, gwirfoddol a Chymreig ei natur.

Os ydych yn yr ardal dros yr Haf, beth am ymuno â'r amrywiaeth o brosiectau sydd ar gerdded yno sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd ddysgu am waith cadwraeth. Dyma ffordd ardderchog o barchu'r Ddaear.

Yn ystod y ddeufis nesaf, gwahoddir y cyhoedd i'r gweithgareddau canlynol yn y ganolfan sydd ar Lôn Felin Hen, Tregarth:

Mercher, 6 Awst (Gwirfoddoli a Hyfforddi Cadwraeth); Gwener, 8 Awst (Adnabod Gweision y Neidr); Mercher, 13 Awst (Gwirfoddoli a Hyfforddi Cadwraeth); Iau a Gwener, 14 / 15 Awst (Deall Bioamrywiaeth); Mercher, 20 Awst (Gwirfoddoli a Hyfforddi Cadwraeth);

Mercher, 10 Medi (Gwirfoddoli a Hyfforddi Cadwraeth); Iau a Gwener, 11 / 12 Medi (Adnabod rhedyn); Iau a Gwener, 18 / 19 Medi (Adnabod ffwng bwytadwy); Sul, 21 Medi (Adar yr hydref); Mercher, 24 Medi (Gwirfoddoli a Hyfforddi Cadwraeth).

Arweinir y gweithgarwch - rhwng 10yb a 4yh - gan yr ecolegydd John Harold. Y cyngor yw dod â hen ddillad cynnes, dillad dal dŵr, esgidiau mawr neu welingtons, pecyn bwyd. Darperir tê a bisgedi.

**►Gwybodaeth: ffoniwch 01248 602793, neu ewch at wefan www.moelyci.org.**

## Cynhadledd 'y genedl drawsnewid'

CYNHELIR cynhadledd Saesneg yn y Tabernacl, Machynlleth, ar 19 — 20 Medi ar bwnc *'Transformation Nation: Responding to Climate Change.'*

Ymysg y siaradwyr fydd y gwyddonydd hinsawdd Syr John Houghton, y newyddiadurwr ac ymgyrchydd George Monbiot, a Patrick Holden sy'n Brif Weithredwr Cymdeithas y Pridd.

Trefnwyd y gynhadledd gan asiantaeth amgylcheddol Cynnal Cymru/Sustain Wales ynghyd â'r Sefydliad Materion Cymreig gyda chefnogaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth.

Amcan y gynhadledd yw ystyried mewn ffyrdd ymarferol y perthynas rhwng newid hinsawdd a diwylliant cefn gwlad — o'r byd-eang i'r lleol.

**►Gwybodaeth: ffoniwch 029 2066 6606; neu ebostiwch wales@iwa.org.uk.**

## Dydd Agored dysgu sgiliau'r bywyd syml

BYDD Jane Davidson, Gweinidog Amgylchedd Cymru, ymysg y bobl fydd yn mwynhau Dydd Agored 1af Prosiect Down-to-Earth ger pentref Murton yng Ngŵyr ar Ddydd Llun, 15 Medi, rhwng 10yb a 4yh.

Mae'r prosiect yn cynnig hyfforddiant mewn sgiliau megis adeiladu tai pridd, codi waliau sych, tyfu bwyd ar gyfer bywyd symlach.

**►Gwybodaeth: ebost - info@downtoearthproject.org.uk. ffôn 01792 369736. Cyfeiriad y safle yw 29 Owensfield, Caswell. Ar fws, cymerwch Rhif 14 o Orsaf Fysiau Abertawe at Lythyrdy Murton — a cherddwch i Owensfield.**

## Fronlas yn estyn croeso eco-gyfeillgar ...



Fronlas eco-gyfeillgar a Chymraeg yn Llandeilo

BELLACH mae gan Landeilo, Sir Gaerfyrddin, y lle perffaith ar gyfer unrhyw un sy'n chwilio am arhosiad mewn gwesty bach organig, eco-gyfeillgar, ffasiynol, cyfoes a Chymraeg.

Agorwyd gwesty bwtîc Fronlas yn Heol Tomos gan Owain ac Eva Huw sy'n aelodau o grŵp ymgyrchu amgylcheddol y dref:

"Rydyn yn falch i fod yn aelodau o Dref Trawsnewid Llandeilo, rhan o'r mudiad Trefi Trawsnewid sy'n cymryd camau ymarferol yn lleol i leihau ein dibyniaeth ar olew," meddai Owain.

Mae Owain ac Eva yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bwyd a diod organig, lleol, gyda'r nwyddau gorau a mwya' ffres o orllewin a chanolbarth Cymru.

Defnyddir trydan o ffynonellau 100% 'gwyrdd'; mae paneli solar yn cyfrannu at gynhesu'r dŵr; ac mae matresi organig cwmni lleol Abaca ar y gwelyau ynghyd â dillad gwely a thywelion organig.

Mae'r holl offer trydan o raddfa 'A' ac mae ail-gylchu a chompostio yn rhannau pwysig o'r ethos rheoli.

O fewn ychydig iawn iddo agor, cafodd gwesty Fronlas lwyddiant arbennig wrth gael ei restru fel un o'r 20 lle gorau i aros ynddo yng nghefn gwlad y Deyrnas Gyfunol.

**►Am fwy o wybodaeth: ffoniwch 01558 824733, e-bostiwch post@fronlas.com**

## TANYSGRIFIO

**Croeso i chi danysgrifio os nad yw'r Papur Gwyrdd ar gael yn eich siop leol. Sieciau am £6 am 6 rhifyn (croesewir cyfraniadau ychwanegol i helpu gyda chostau postio) at: Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX**

## HYSBYSEBION

**I hysbysebu yn Y Papur Gwyrdd, ffoniwch 01792 798162 neu ebostiwch am fanylion at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com**

## GWEFAN

**Croeso i chi ymweld â'n Gwefan sydd â phyrth i'r byd Gwyrdd — sef www.ypapurgwyrdd.com**

►Croesawn eitemau at Ddaear-iadur YPG. Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Neu ffoniwch 01792 798162

# Galw ar yr eglwysi i fynnu achub … y Ddaear

WRTH lansio un o'r cyhoeddiadau amgylcheddol mwya' heriol yn yr iaith Gymraeg, mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg wedi galw ar bob un o'u 450 o eglwysi ledled Cymru i gymryd camau ymarferol i leihau eu hôl-troed carbon ar y Ddaear.

Lansiwyd y **Pecyn Amgylcheddol** yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol yr Annibynwyr ym mhrifysgol Abertawe, ym mis Gorffennaf.

Wrth ei gyflwyno, meddai'r Parch Gareth Morgan Jones, cadeirydd Adran Dinasyddiaeth Gristnogol yr enwad, "Heb os nac oni bai dyma un o brif bynciau trafod ein dyddiau ni ymhlith gwyddonwyr a gwleidyddion, ac i ni fel Cristnogion mae yna gyfrifoldeb mawr."

Lluniwyd sawl rhan o'r Pecyn, gan gynnwys Holiadur ac Awgrymiadau o Weithgarwch, gan y gwyddonydd Dr Hefin Jones, sy'n darlithio yn Ysgol Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd.

Gan ddatgan, "Mae mwy o bobl yn mynychu eglwys yn wythnosol na sydd yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd gwirfoddol arall ..." mae Dr Jones yn galw ar eglwysi'r Annibynwyr i asesu pa mor wyrdd mae eu heglwysi, a sut maen nhw'n cefnogi ymdrechion gwyrdd eu cymunedau.

Mae'r Pecyn yn galw ar eglwysi i 'greu Cornel Byd Natur yng nghyffiniau'r capel mewn cornel o'r fynwent nad sy'n cael ei defnyddio,' i drefnu tripiau Ysgol Sul i wahanol gynefinoedd, i ymweld â Chanolfan y Dechnoleg Amgen yng Nghorris ger Machynlleth, ac i ddilyn amrywiaeth o gynghorion ymarferol ar sut i ofalu am y Ddaear yn ein bywyd pob dydd.




**Y Pecyn Amgylcheddol**

Wedi'i olygu gan Delyth M. Evans, mae'r Pecyn hefyd yn cynnwys rhestr ddefnyddiol o wefannau amgylcheddol. ☐

**►Gwerthir Pecyn Amgylcheddol yr Annibynwyr i'r cyhoedd am £3, yn ogystal â chael eu danfon at eglwysi. Cysylltwch â Thŷ John Penri, Abertawe, ffôn 01792 795376, e-bost undeb@annibynwyr.org am fwy o wybodaeth.**

## HWYL GWELLA'R BYD




**UCHAF: Gweinidog Amgylchedd Cymru Jane Davidson yn lansio Wythnos Cymru Daclus gyda phlant ar draeth Bae Abertawe**



**AR Y DDE: ... yn cyfarch beicwyr brwd ar ddechrau Wythnos y Beic yng Nghaerdydd**



**ISAF: ... ac yn cychwyn cwmni Couriers Beiciau Caerdydd ar eu cytundeb newydd i ddosbarthu eitemau post mewnol Llywodraeth y Cynulliad rhwng 19 o adeiladau'r Llywodraeth ledled Caerdydd**


# GREEN BEAN ORGANICS

Gwasanaeth Dosbarthu cynnyrch organig lleol i'ch cartref.

Yn arbenigo mewn blychau ffrwythau a llysiau, cigoedd organig lleol, cynnyrch organig Cymreig a llawer mwy!

www.greenbeanorganics.co.uk
01570 423523

Wedi'i hardystio (176P) yn werthwr cynnyrch organig ardystiedig.

CYNLLUN ORGANIG CYMREIG - DU13



Mynnwch
gwsg
ym mynwes
natur



# Matresi Organig gan Abaca

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**

